

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Peiriannydd Seiberddiogelwch a Gwydnwch

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.


Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.


Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.
Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.

# Ble rydym wedi'n leoli?

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Sir y Fflint**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**






**Cyflog:** £36,124– £37,938

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **Canolfan Rheoli Traffig, Conwy**

**Dyddiad cau:** 07/08/2025 10:00

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Monitro'r Rhaglen Sicrwydd Diogelwch i gwmpasu bygythiadau technoleg presennol a chyfredol ar draws Isadeiledd Cyfathrebu a Systemau Traffig Cymru, yn ogystal â cydlynu a dogfennu'n effeithiol y gofynion cydymffurfio â Seiberddiogelwch, yn unol â pholisïau, safonau a deddfwriaeth diogelwch lle bo hynny'n berthnasol, yn unol ag arfer gorau y diwydiant

Darparu mewnbwn ar ddiogelwch a gwytnwch yr isadeiledd a'r gallu i adfer trwy ymateb yn llwyddiannus i ddigwyddiadau, yn ogystal â sicrhau bod isadeiledd y systemau yn cael ei gefnogi yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ac Asiantaethau'r Cefnffyrdd.



# Cyfrifoldebau

## Prif ddyletswyddau

**Staff:**

- Darparu arweiniad a chefnogaeth i randdeiliaid eraill, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Tîm Twneli, y Tîm Systemau Trafnidiaeth Ddeallus, y Tîm Cyfathrebu Cyhoeddus a'r Ystafelloedd Rheoli Gweithredol.
- Gweithio fel arweinydd technegol ar gyfer diogelwch ar brosiectau integreiddio systemau amrywiol.

**Cyllid:**

- Byddwch yn ymwybodol o strwythurau cyllidebol a chefnogi cyfyngiadau prosiectau/contractau.Darparu gwasanaethau ar gyfer prosiectau bach, canolig a mawr.

**Data / Offer / Meddalwedd:**

- Cael mewnbwn i agweddau Seiberddiogelwch ar systemau critigol monitro a rheoli diogelwch. Darparu cymorth technegol i unrhyw brosiectau technegol newydd.
- Rhoi mewnbwn i unrhyw galedwedd neu feddalwedd a ddefnyddir er budd diogelu'r holl systemau a data Traffig Cymru.
- Cael mewnbwn i agweddau diogelwch systemau sy'n cael effaith ar yr holl randdeiliaid mewnol ac allanol ac sy'n cael effaith uniongyrchol ar y cyhoedd (a gwneud penderfyniadau amdanynt).
- Bod yn gyfrifol am sefydlu a chadw polisïau y wal dân fewnol ac allanol.
- Cyfrifoldeb am y gwasanaeth hidlo'r defnydd o'r we.
- Datblygu a chynnal amcanion, strategaeth a pholisi diogelwch y system.
- Sicrhau bod cynlluniau, polisïau a strategaethau o'r fath yn cael eu cytuno â rhanddeiliaid perthnasol.
- Sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol yn cael eu diweddaru pan wneir newidiadau.
- Cyd-gysylltu ag unigolion/cyrff allanol i ddatrys materion cymhleth.

**Gwneud penderfyniadau, trefniadaeth ac arloesi:**

- Adolygu cydymffurfiaeth â safonau Seiberddiogelwch yn rhagweithiol.
- Ymateb i ddigwyddiadau diogelwch TG, ymchwilio a dadansoddi, dogfennu ac adrodd, gan gynnwys argymhellion gwella.
- Monitro ynglŷn â thorri diogelwch, ymosodiadau neu weithgareddau anarferol, gan gynnwys adnabod cam-drin unrhyw ganiatâd ac ati.
- Nodi syniadau ac effeithlonrwydd newydd ynghylch sut y gall Traffig Cymru greu gwelliannau effeithlonrwydd, gwella'r gwasanaethau a ddarperir i randdeiliaid eraill neu greu cyfleoedd newydd o fewn y Tîm Isadeiledd Cyfathrebu a Systemau Traffig ac o fewn prosiectau cyfredol ac ar draws y sefydliad.
- Rhoi mewnbwn i'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch dewis cyflenwyr a chynhyrchion.
- Rheoli eich llwyth gwaith cymhleth a thechnegol iawn eich hun i gyrraedd y targedau.
- Gallu cyflawni tasgau lluosog ar yr un pryd.
- Yn gallu taro cydbwysedd rhwng gofynion cyflawni gwaith prosiect a gwaith cymorth pwysau uchel a gwaith cymorth ad-hoc i sicrhau eu bod yn parhau i fod ar gael i'r Tîm Isadeiledd Cyfathrebu a Systemau Traffig.
- Arwain ar bolisïau a gweithdrefnau, y bydd yn ofynnol iddo/iddi eu dogfennu.
- Rhoi mewnbwn i'r broses gynllunio busnes. Cyfrannu tuag at sicrhau bod targedau perfformiad a mesuriadau gwella yn cael eu cyflawni neu y rhagorir arnynt.

**Cyfathrebu:**

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol i gyfathrebu â rhanddeiliaid amrywiol.




# Manylion Person

**Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.**

## Meini prawf penodol i’r swydd

### Nodweddion personol:

### Hanfodol

- Mae angen bod yn annibynnol ac yn gallu gwneud penderfyniadau ar ei ben ei hun ac fel rhan o dîm.
- Rhagweithiol wrth barhau i ddysgu am y diweddaraf mewn diwydiant cymhleth sy'n newid yn gyflym.
- Yn gallu ennill sgiliau a diweddaru'n barhaus wrth i'r diwydiant symud ymlaen.
- Yn berchen ar drwydded yrru lawn y DU

### Cymwysterau a hyfforddiant personol:

- Gradd Berthnasol neu gymhwyster Seiberddiogelwch (e.e. CISSP, CEH, CCSP, CISM)

### Profiad perthnasol:

- Profiadol mewn peirianneg a chefnogi systemau diogelwch (e.e. wal dân, meddalwedd gwrthfeirws ac ati)
- Profiad o ddefnyddio systemau i nodi ac adrodd am wendidau diogelwch
- Dealltwriaeth eang o safonau diogelwch e.e. NCSC CAF, Cyber Essentials, NIST ac ati
- Swyddog proffesiynol gyda phrofiad eang mewn cymorth, cynnal a chadw a dylunio rhwydwaith
- Profiad mewn dadansoddi a dylunio seilwaith

### Sgiliau a gwybodaeth arbenigol:

- Gwybodaeth am isadeiledd TG, caledwedd, systemau gweithredu, rhwydweithiau ardal eang/lleol ac ati
- Sgiliau dogfennu cryf, a'r gallu i ddogfennu adroddiadau i gynulleidfa dechnegol a/neu an-dechnegol
- Profiad mewn rheoli Seiberddiogelwch, gan gynnwys atal, monitro a chanfod digwyddiadau, ymosodiadau, ymyriadau a gweithgareddau anarferol, anghyfreithlon neu faleisus eraill
- Ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes arbenigedd
- Gallu datrys problemau yn rhesymegol
- Gwybodaeth fanwl am offer diwifr a switshis gyda'r gallu i'w sefydlu, eu ffurfweddu, eu cynnal a'u cefnogi
- Y gallu i sefydlu, ffurfweddu, cynnal wal dân

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu ein staff:



- 29.5 o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- Gweithio oriau hyblyg



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o  wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith.
- Arbedion ar siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy.



- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith.



- Gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.